

## MORRIS, RICHARD (1703 - 1779), sylfaenydd Cymdeithas y Cymmrodorion

**Enw:** Richard Morris  
**Dyddiad geni:** 1703  
**Dyddiad marw:** 1779  
**Priod:** Mary Morris (née Major)  
**Priod:** Elizabeth Morris  
**Plentyn:** Angharad Morris  
**Plentyn:** Margaret Morris  
**Plentyn:** Marian Morris  
**Plentyn:** Richard Morris  
**Rhiant:** Margaret Morris (née Owen)  
**Rhiant:** Morris Morris  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** sylfaenydd Cymdeithas y Cymmrodorion  
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ail fab [Morris ap Rhisiart Morris \(Morris Prichard\)](#) a brawd i [Lewis, William](#), a [John Morris](#). Ganwyd 2 Chwefror 1702/3 yn y Fferem, Llanfihangel Tre'r Beirdd. Bu'n gweithio gyda'i dad, ac y mae gennym restr yn ei law ef ei hunan o gelfi pren a wnaethpwyd ganddo yn y gweithdy yn 15 oed. Yn ôl papurau y diweddar [Iolo A. Williams](#) fe aeth Richard i Lundain 1 Awst 1722 a'i frawd [Lewis](#) ar y 7 Mai 1723. Yr oedd wedi troi at glercio a chadw llyfrau cownt cyn iddo fynd i Lundain - ni welodd Fôn wedyn, ac unwaith yn unig y gwelodd Gymru, sef yn 1766 pan ymwelodd â gweddwi ei frawd [Lewis](#) ym Mhenbryn. Prin a damweiniol yw ein gwybodaeth o fanylion ei yrfa yn Llundain, oblegid cyfran fechan iawn o lythrau'r [Morysiaid](#) sydd yn llaw Richard, ac i'r ychydig flynyddoedd rhwng 1759 a 1763 y perthyn y rhan fwyaf o'r rheini. Ond y mae'n eglur mai fel clerc a chyfrifydd yr enllai ei damaid yn ei flynyddoedd cyntaf yno. Sonia yn 1728 am obaith am 'le gwerth £100 y flwyddyn'; yn yr un flwyddyn dewiswyd ef yn un o stiwardiaid cinio Gwyl Ddewi Cymdeithas yr Hen Frutaniaid at y flwyddyn nesaf; priododd yn 1729, ac yn 1730 bu ei frawd [William](#) yn ymweld ag ef ac yn cyfranogi o'r cinio Gwyl Ddewi - rhwng popeth, gellir meddwl bod Richard yn dyfod yn ei flaen yn bur dda. Ond wedyn, daeth adfyd arno. Aeth yn feichiau dros ryw wr a 'dorrod,' a bu raid iddo fwrw 12 mis yng ngharchar y 'King's Bench ' yn 1734-5. Cwyna mor ddi-help fu ei frodyr iddo - ar wahân i [John](#), a oedd gydag ef yn Llundain yn 1735, ill dau 'bron â newynu.' Sgrifenna at ei rieni yn Chwefror 1739 yn gwynfannus, gan sôn am 'bedair blynedd galed iawn' yr oedd newydd fynd drwyddynt; ond yr oedd pethau'n dechrau goleuo - [Meyrick](#) o Fodorgan wedi rhoi benthyc ychydig iddo, ac addo gwneud rhywbeth drosto; yn wir, yr oedd ganddo addewid o dri mis o waith fel clerc ynglyn â'r Senedd; gwyddom (*Llawysgrif R.M. o Gerddi, cxx*) ei fod hefyd yn gweithredu fel cyfieithydd yn y llysoedd barn. Yn 1742, cafodd [Thomas Ellis](#) o Gaerbybi gan esgob Bangor roi gwaith iddo ynglyn ag argraffu pamffledau Cymraeg; ac yn 1744 dewiswyd ef i arolygu argraffiad y S.P.C.K. - yn 1746 a 1752 y daeth dau 'argraffiad Richard Morris ' allan, ac ystyrir hwy hyd heddiw'n waith da. Bu hefyd, trwy dylanwad [Meyrick](#) eto, yn gwastatáu cyfrifon stad yr arglwydd Londonderry (i bob golwg, rhwng 1742 a 1747); ac wrth edrych yn ôl yn ei hen ddyddiau (1770), y mae'n enwi rhes o fawrion y bu'n gwneud yr unrhyw wasanaeth iddynt. Ond yn 1747 (gellir yma eto ddyfalu mai dylanwad [Bodorgan](#) ar Thomas Corbett - gweler yr ysgrif ar [Lewis Morris](#) - a fu ar waith) penodwyd ef yn glerc yn swyddfa'r llynges ('y Nafi Offis'); erbyn 1757 yr oedd yn brif glerc ('Chief Clerk for Foreign Accounts to the Comptroller of the Navy'), â chyflog o £100, ac yn 'yswain ' (er difyrrwch mawr i'w frawd [William](#)); bu yn y swydd honno weddill ei oes, ond daliodd at ' my private agency ... out of office hours.'

Yr oedd y diwydrwydd hwn (a nodweddi ei frodyr hefyd) yn ddiamau'n gynhenid yn Richard Morris - fe ddywed rywdro nad oedd ganddo amser hyd yn oed i gymryd pryd o fwyd. Ond yr oedd hefyd yn orfodaeth arno, yn herwydd ei anallu i edrych yn llygad y geiniog. Yn gwbl groes i'w frawd [Lewis](#), yr oedd yn hael ac anhunangar a rhadlon i ormodedd. Yr oedd anffawd 1734 yn gwbl nodweddiadol; a chwyna [Lewis](#) yn chwyn fod holl Gymry Llundain yn byw ar gefn Richard, a'i fod yn esgeuluso ei wraig a'i blant i helpu eraill. Yr oedd yn gwbl ddibris o'i gysur ac o gysur ei deulu. Y mae'n anodd (yn amhosibl yn wir) olrhain ei symudiadau mynych o lety i lety; cysgai (meddai [Lewis](#)) mewn hofl a alwai'n 'swyddfa,' a'i wraig a'i blant 'mewn llofft' mewn ty arall. Cwyna [Lewis](#) hefyd yn erwin ar ddrwg-effeithiau cyfeddach y Cymmrodorion, ac oriau afresymol eu cyfarfodydd, ar iechyd Richard. Ym mis Awst 1757 plannodd [Lewis](#) ei droed i lawr a mynnu gan Richard gymryd ty iawn yn Stepney; ond erbyn 1763 yr oedd wedi mynnu symud oddi yno i dy o fewn 'terfynau' Twr Llundain, i fod yn agos at ei swyddfa; ac yno y bu farw.

Cymhellion dyngarol a chymdeithasgar yn bennaf a'i harweiniodd i sefydlu Cymdeithas y Cymmrodorion, fis Medi 1751 - yn enwedig sêl dros ysgol Gymreig Cymdeithas yr Hen Frutaniaid, a oedd ar y pryd braidd yn y merddwr, ac a fu'n agos iawn at ei galon bob amser. Ond yr oedd hefyd mewn llawn gydymdeimlad â bwriadau mwy uchelgeisiol ei frawd [Lewis](#), a'i

ddiddordebau llenyddol yn unrhyw, serch na honnai ysgolheictod [Lewis](#). Ac yntau'n fachgen, yr oedd wedi gwneuthur casgliad o brydyddiaeth ('rydd,' gan mwyaf) - cyhoeddwyd hwn dan y teitl *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*, gan [T. H. Parry-Williams](#) yn 1931, ac y mae yn y gyfrol honno hefyd ddarnau o waith Richard ei hunan yn ei gyfnod bore yn Llundain. Yr oedd hefyd wedi bod wrthi'n rhestru'r llawysgrifau Cymraeg a brynodd y mathemategwr [William Jones](#) gan weddw [Moses Williams](#); heb sôn am ei waith gofalus gyda *Beibl a Llyfr Gwedd*'r S.P.C.K. (yn ddiweddarach, yn 1770, cyhoeddodd argraffiad plyg mawr, darluniedig, o'r *Llyfr Gwedd*). Felly naturiol oedd iddo gefnogi cynlluniau [Lewis](#) i wneud math o 'academi' o'r Cymmrodorion ac i gyhoeddi barddoniaeth Gymraeg dan ei nawdd hi. Ysywaeth, nid oedd fawr neb o'r gymdeithas (hyd nes daeth '[Owain Myfyr](#)' yn ysgrifennydd cynorthwyol iddi bron yn niwedd oes Richard Morris) yn barod i gydweithio yn y modd hwn, a chywir ddigon yw'r dywediad mai 'Richard Morris oedd y Cymmrodorion' yn hynny o beth. Ac yr oedd yntau'n ddyn llawer rhy brysur, yn enwedig wedi i ryfel 1756-63 dorri. Ond cywirodd destun *Diddanwch teuluaid* [☞](#) 1763, a darllenodd broflenni'r brydyddiaeth Gymraeg sydd yn *Specimens of Antient Welsh Poetry*, 1764, '[Ieuan Fardd](#)' (Evan Evans). Casglodd nifer mawr o lawysgrifau, a phan fu farw [Lewis Morris](#), brysiodd i lawr i Benbryn i gydio yn llawysgrifau hwnnw, yn nannedd ei nith Ellen - y mae gennym le mawr i ddiolch iddo am eu hachub rhag mynd ar chwâl. Llywyddai'r Cymmrodorion (bu'n llywydd hyd ei farw) fel unben; gallai golli ei dymer a dweud pethau hallt, ond bu'n faddeugar i [Oronwy Owen](#), yn amyneddgar y tu hwnt gyda '[Ieuan Fardd](#),' ac yn garedig wrth lenorion eraill.

Bu'n briod bedair gwaith, ond ni wyddom hyd yn oed enwau'r ddwy wraig gyntaf. Bu'r gyntaf oll, a briododd yn 1729, farw tua 1740; o'u plant (ni wyddom pa gynifer), sonnir yn y llythyrau am un ferch, Marian, a briododd yn anffodus ac a gilia o'r golwg yn 1763, ond yr oedd hi eto'n fyw pan wnaeth ei thad ei ewyllys. Ailbriododd Richard yn 1741; bu'r ail wraig farw yn 1750; yr oedd o'r briodas hon amryw blant, a fu farw'n gynnar (cyn y briodas nesaf). Erbyn 1754 yr oedd Richard yn briod am y trydydd tro; enw'r wraig oedd Elizabeth, merch o Gaerwrangon, a'r tro hwn y mae ei ddau frawd yn uchel eu clodydd. Ganed 10 o blant o'r briodas hon, meddai ewyllys Richard; enwir saith ohonynt yn y llythyrau, a bu tri ohonynt fyw ar ôl eu mam (a fu farw yn Hydref 1772), sef dwy ferch, Angharad a Margaret (sonnir llawer amdanynt yn y llythyrau, ond ni wyddys ddim o'u hanes wedi marw eu tad), a RICHARD MORRIS, a aned 31 Ionawr 1762. Anfonwyd ef at ei fodryb ym Mhenbryn i ddysgu Cymraeg, a magodd gryn ddiddordeb yn hoff bynciau ei dad a'i ewythr [Lewis](#); daeth yn aelod o'r Cymmrodorion ac o'r Gwyneddigion (am ryw reswm, nid ymunodd ei dad erioed â honno, er mai ei ffefryn '[Owain Myfyr](#)' a'i cychwynnodd), a bwriadai gyhoeddi *Celtic Remains* ei ewythr, ond ni ddaeth dim o'r bwriad hwnnw, oblegid aeth Richard i'r India 'n fasnachwr, ac yn 1790 y clywir ddiwethaf amdano; yr oedd wedi mynd â rhai o lyfrau ei dad i'r India gydag ef, ond yn ôl ewyllys ei dad fe'i hanfonodd i'r ysgol Gymraeg yn Llundain yn 1785.

Rhywbryd cyn 7 Tachwedd 1773 (pan wnaeth ei ewyllys) yr oedd Richard Morris wedi priodi drachefn, â gweddw o'r enw Mary Major, o Stepney. Y mae peth awgrym nad oedd yn dda ei fyd; dymunai yn 1772-3 encilio i Gymru, ond ni allai fforddio ymddeol; a sonia [Thomas Pennant](#) am faddau i'w weddw £63 a oedd i ddyfod iddo drwy law Richard Morris ar gyfrif y *British Zoology*, am iddi gael ei gadael 'in narrow circumstances.' Yr oedd hefyd yn fregus ei iechyd, a chafodd ganiatâd parod yn 1776 i fyw mewn ystafell yn yr ysgol Gymraeg am ddeufis neu ragor 'for the benefit of the air.' Ond 'yn y Twr y bu farw fis Rhagfyr 1779, a chladdwyd gyda'r drydedd wraig a'u plant, yn S. George-in-the-East. Profwyd yr ewyllys ar ddydd Calan 1780. Gadawodd y cwbl o'i lyfrau a'i lawysgrifau Cymraeg i'r ysgol Gymraeg yn Gray's Inn Road, 'gan obeithio y chwanegir atynt lawysgrifau fy nghyfaill parchus a gwlatgar [Syr Watkin Williams Wynn](#) a boneddigion eraill a gâr yr hen iaith Gymraeg' - breuddwydiai Richard Morris felly am lyfrgell genedlaethol i Gymru. Yn yr ysgol y bu'r llawysgrifau (a gynhwysai hefyd lawysgrifau [Lewis Morris](#)) hyd 1844, pan drosglwyddwyd hwy'n ddoeth iawn i'r Amgueddfa Brydeinig.

## Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

*The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Môn) 1728-1765* (1907-9) (gol. J. H. Davies; mynegeion gan Hugh Owen)

Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735-86)* (London 1947-9)

ewyllys Richard Morris (yn Somerset House)

G. J. Williams, 'Llythyrau at Ddafydd Jones o Drefriw,' yn atodiad 1943 i *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

Helen M. Ramage, 'Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion,' yn *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600*, i, rhifynnau 2 a 3

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> [☞](#)

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

